

'Y GAINC' (THE MELODY)

CERDD DAFYDD AP GWILYM (C. 1320 – C. 1370)

TESTYNAU A FEACSIMILIAU

<http://www.dafyddapgwilym.net>

<http://digidol.llgc.org.uk/>

CYNNWYS

RHAGYMDRODD : iii

RHESTR LLAWYSGRIF : iv

STEMA : v

TESTYNAU A NODIADAU (I GYD) :

LLINELLAU :	TUDALENAU :
1-4:	1
5-8:	2
9-12:	3
13-16	4
17-20	5-6
21-24	7
25-30	8-9
31-36	10-11

ARALLEIRIAD : 12

SAESNEG : 13

TESTYNAU LLAWYSGRIFAU :

C 7, 870S1 :	14
G 3, 212VS213R :	15
G 4, 34VS35R :	16
H 26, 318S19 :	17
PEN 49, 107RS108R:	18
+ FFACSIMILE	19-21
PEN 54, 73S5 :	22
+ FFACSIMILE	23-25
PEN 57, 1S2:	26
+ FFACSIMILE	27-28

BYRFODDAU :

LLAWYSGRIFAU :	29
LLYFRYDDOL :	30-33
TERMAU A GEIRIAU :	34

RHAGYMATRODD

Yn y cywydd hwn y mae Dafydd yn ymhyfrydu mewn cainc a ddysgodd ar y delyn, cainc a luniodd, fe ymddengys, er clod i Ddyddgu. Fe'i cymherir â chân aderyn, ac er nad yw Dyddgu yno i'w gwerthfawrogi, hydera Dafydd y bydd yn ei chlywed yn nhrydar yr eos. Barn merched y gwledydd, fodd bynnag, yw mai twpsyn anghelfydd a'i canodd, agwedd sy'n dwyn i gof eiriau bychanol y ddwy ferch yn y cywydd 'Merched Llanbadarn' (137).

Enwir *C[aniad] ar gainc David ap Gwylim* mewn rhestr o gyweiriau cerdd dant a geir yn llawysgrif Pen 77 (16g.), gw. T. Gwynn Jones, 'Cerdd Dant', B i (1921–3), 149, ac fe all fod y traddodiad hwnnw'n seiliedig ar y cywydd. Teitl y gerdd yn G 3 yw *Ir gaingc a ehvir Symlen*; ceir teitlau tebyg yn G 4, Ll 186, CM 129 a Bl f 5, yn seiliedig ar l. 11. Gwyddys bod *Symlen Ben Bys* yn enw ar gainc yn ddiweddarach (gw. 11n.), ond unwaith eto mae'n bosib fod hynny'n seiliedig ar y cywydd. Ceir ymdriniaeth lawnach â therminoleg gerddorol y cywydd gan Sally Harper yn y Rhagymadrodd.

Digwydd y cywydd mewn dwy lawysgrif gynnar, sef Pen 57 (y rhan gyntaf, c. 1440) a Pen 54 (c. 1480). O'r Vetustus y deillia testunau H 26, Pen 49 a G 3, ac felly hefyd yn anuniongyrchol Ll 186 a CM 129. I draddodiad y Vetustus y perthyn LlGC 560, G 4, Bl f 5, Ll 133 (sy'n agos iawn at destun Pen 49), a C 7 (5–6 a 25–6 yn eisiau, yn ogystal â 19–20). Er bod y pedwar cwpled cyntaf yn eisiau yn Pen 57 mae'n destun ardderchog. Cyfetyb trefn y llinellau i draddodiad y Vetustus ond mae 13–14 yn eisiau a 19–20 yn ychwanegol, cwpled a geir hefyd mewn man gwahanol yn Pen 54. Mae'r darlleniadau'n rhagori'n aml ar y Vetustus gan gyd-fynd mewn sawl man â Pen 54. Er bod pedwar cwpled yn eisiau yn Pen 54 a threfn y llinellau'n gymysglyd yn llau 13–30, fe ddiogelodd nifer o ddarlleniadau sy'n werthfawr o ran sefydlu testun, yn enwedig lle bo'n cyfateb i Pen 57 yn groes i dystiolaeth y Vetustus.

Cynghanedd:

croes 10 ll. (27.5%), traws 15 ll. (41.5%), sain 9 ll. (25%), llusg 1 ll. (3%), digynghanedd 1 ll. (3%).

RHESTR LLAWYSGRIF

LLAWYSGRIFAU LLYFRGELL GANOLOG CAERDYDD :

C 2.114 [= C 7] : ‘Llyfr Ficer Woking’: llaw anh., 1564–5, gw. RWM ii, 110–28;
Graham C.G. Thomas & Daniel Huws, op.cit. 88; MWM 100.

C 4.330 [= H [afod] 26] : Syr Thomas Wiliems, Trefriw, c. 1574, gw. RWM ii, 336–45;
Graham C.G. Thomas & Daniel Huws, op.cit. 353; MWM 99.

LLAWYSGRIFAU GWYNEDDON DAVIES YM MHRIFYSGOL CYMRU, BANGOR :

G 3 : Jasper Gryffyth, 1590, gw. GSCMB 30; Gwyneddon 3, gol. I. Williams
(Caerdydd, 1931), v–xii; *Early Welsh Poetry: Studies in the Book of Aneirin*,
ed. B.F. Roberts (Aberystwyth, 1988), 46.


G 4 : William Middleton, o bosibl, c. 1575, gw. GSCMB 30; I. Williams,
‘Protestaniaeth Wiliam Midleton’, B viii (1935–37), 245–7.

LLAWYSGRIFAU PENIARTH YN LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU, ABERYSTWYTH :

Pen 49: John Davies, Mallwyd, 16/17g., gw. RWM i, 382–9;
Daniel Huws, ‘John Davies and his Manuscripts’, yn Ceri Davies (gol.),
Dr John Davies of Mallwyd (Cardiff, 2004), 90–93.

Pen 54: ?Gwilym Tew, c. 1480 (tt. 24–99); Huw Cae Llwyd (tt. 315–17),
diwedd y 15g., gw. RWM i, 409–19, MWM 63, 95–6.

Pen 57, i: llaw anh., c. 1440, gw. RWM i, 428–32; MWM 93.



Stema (llawysgrifau ‘Y Gainc’ mewn bocsau bras)

TESTUN:

- 1 Dysgais ryw baradwysgainc { Dysgais ryw gainc baradwysaidd }
- 2 Â'r dwylo mau ar dâl mainc, { â'm dwylo i ar ben mainc, }
- 3 A'r dysgiad, diwygiad dyn, { ac 'roedd yr hyn a ddysgwyd (dyna arfer dyn) }
- 4 Eurai dalm ar y delyn. { yn enwogi'r delyn am ysbaid. }

*I learnt a heavenly melody
with my own two hands on the end of a bench,
and what I learnt (such is man's custom)
brought honour to the harp for a while.*

Llawysgrifau:

C 7, 870-1 :	Dysgais ryw baradwysgainc ar dwylo mav ar dal mainc a dysgiad dywygiad dyn evrai dalm ar y delyn	H 26, 318-19:	Dyscais ryw baradwysgainc ar dwylaw mav ar dal mainc ar dysciad dywygiad dyn eurai dalm ar y delyn
G 3, 212v-213r:	Dyscais ryw baradwys-gaingc ar dwylaw mau ar dâl maingc Ar dysciad diwygiad dyn eurai dalm ar y delyn	Pen 49, 107r-108r:	Dysgais ryw baradwysgaingc Ar dwylaw mav ar dal maingc [107v] Ar dysciad dywygiad dyn Evrai dalm ar y delyn
G 4, 34v-35r:	Dysgais ryw baradwysgainc Ar dwylaw mau ar dal mainc Ar dysgiad diwygiad dyn Eurai dalm ar y delyn	Pen 54, 73-5:	Dysseis ryw baradwysgeingc Or dwylaw mav ar dal meingc ----. ----

Nodiadau:

2. tâl mainc Yn draddodiadol yr oedd pen y fainc yn safle anrhydeddus yn y llys, cymh. ll. 14: *ys aelaw 'y mraint*. Meddir yn Llyfr Iorwerth am y gof llys: *E le yn e llys yw en tal y ueync, en nessaf e'r effeyryat teylu* (LII 21).

4. eurai Mewn ystyr ffigurol, 'enwogi' neu 'anrhydeddu', cymh. 7.4, 136.30, 145.3.

5	Llyma'r gainc ar y fainc fau,	{ Dyma'r gainc ar fy mainc i, }
6	O blith oed yn blethiadau	{ o ganol oed serch yn blethiadau }
7	O deilyngfawl edlingferch	{ o fawl teilwng merch fonheddig }
8	A brydais i â brwyd serch.	{ a luniais i â ffram frodio serch. }

*This is the melody, there upon my bench,
weaving a noble girl's worthy praise
that I composed from a love-tryst,
on love's embroidering frame.*

Llawysgrifau:

C 7, 870-1:	----- ----- o deilyngfawl edlingferch a brydais i a brwyd serch	H 26, 318-19:	a hon ywr gainc ar vainc vav o blith oyd o blethiadau i deilyngvawl edlingverch a brydais a brwyd serch
G 3, 212v-213r:	A hon yw'r gainc ar faingc fau o blith oed o blethiadau o deilyng-fawl edling-ferch a brydais i a brwyd serch	Pen 49, 107r-108r:	A hon yw'r gainc ar faingc fav O blith oed o blethiadau I deilyngfawl edlingferch A brydais i ebrwyd serch
G 4, 34v-35r:	A honn yw 'r gainc ar fainc fau O blith oed o blethiadau O deilyngfawl edlingferch A brydais i a brwyd serch	Pen 54, 73-5:	llymar gainc ar y veingc vav O blith oed yn blethiadau O deilyngvawl edlingverch A brydais i a brwyd serch

Nodiadau:

5–6. Mae fersiwn Pen 54 yn rhagori. Yr hyn sydd yn y llsgrau eraill yw:
A hon yw'r gainc ar fainc fau / O blith oed o blethiadau.

6. plethiadau Cyffredin yw'r syniad o blethu cerdd neu gân, e.e. 11.7–8: *Gwell y plethaf, ddenraf ddôr, / Gwawd y tafawd yt*, Ifor; 159.5–6: *Ba ryw ddim a fai berach / Blethiad na'i chwibaniad bach?* Ond dichon fod plethiad yn derm technegol yma. Un diffiniad yn GPC 2826 yw 'Dull o ganu nodyn neu nodau ar y delyn', a'r enghraifft gynharaf a ddyfynnir yw GST ii, 312–13: *Plethiadau sydd ddechrau kywir dannav a thynniadau ac yn tekav rrwng tynniad a chywir dant.*

8. brwyd Cymerir mai ffrâm frodio a olygir, yn drosiad am y delyn. Mae'n weledol addas ac yn gyson â'r ddelwedd gyffredin o wau neu blethu cân, cymh. *plethiadau* yn y cwpled blaenorol, ac e.e. *Ystofwraig mydr* am yr eos (155.32). Fel y noda Thomas Parry, GDG t. 545, gellid yr ystyr 'colyn, pigiad' yn ogystal. Llai tebygol yw'r ffurf ansoddeiriol 'toredig, drylliog, bregus', gw. GPC 335 d.g. brwyd².

- 9 Meddai ferched y gwledydd { Meddai merched y gwledydd }
 10 Amdanaf fi, o'm dawn fydd: { amdanaf fi (oherwydd fy natur y mae hynny): }
 11 'Semlen yw hon naws amlwg, { 'Tôn syml, eglur ei dull yw hon, }
 12 A symlyn yw'r dyn a'i dwg.' { a thwpsyn yw'r dyn sy'n ei dwyn.' }

*All the girls of the land,
 because of my nature, say of me:
 'This is but a simple, obvious melody,
 and a simpleton is the man who brings it.'*

Llawysgrifau:

C 7, 870-1:	[871] Meddynt ferched y gwledydd am danaf i om dawn fydd symlen ywr gainc os amlwg a symlyn ywr dyn ai dwg	Pen 49, 107r-108r:	Meddynt ferched y gwledydd Am danafi o'm dawn fydd Symlyn yw'r gaingc os amlwg A Symlyn yw'r dyn ai dwg
G 3, 212v-213r:	[213r] Meddant ferched y gwledydd am danafi o'm dawn fydd Symlen yw'r gaingc os amlwg a Symlyn yw'r dyn ai dwg	Pen 54, 73-5: [74]	meddei verched y gwledydd am danaf vi om dawn vydd Semlen yw honn naws amlwg a symlyn ywr dyn ai dwg
G 4, 34v-35r:	Medhant ferched y gwledydd Am dana fi om dawn fydd Symlen yw 'r gainc os amlwg A symlyn yw 'r dyn ae dwg	Pen 57, 1-2:	//Meddei verched y gwledydd Am danaf vi am dawn vydd Semlen yw honn os amlwg A symlyn ywr dyn ay dwc
H 26, 318-19:	[319] meddynt verched y gwledydd am danafi, o'm dawn vydd symlen yw'r gainc os amlwg a symlyn yw'r dyn ai dwg		

Nodiadau:

9. meddai Mae Pen 54 a Pen 57 yn gytûn. *Meddynt* a *meddant* sydd yn nhestunau traddodiad y Vetustus.

merched y gwledydd Cymh. 138.1, GGLI 6.35 (Gruffudd Llwyd). Fe'u cyferbynnir â'r gwyreainc yn ll. 16.

10. o'm Pen 57 am, cymh. Bl f 5 a LIGC 560. Mae Pen 54 a'r Vetustus yn gytûn yma.

11. Pen 54 a rydd yr union ddarlleniad hwn. Pen 57: *Semlen yw honn os amlwg*; ymddengys mai darlleniad y Vetustus oedd *Symlen yw'r gainc os amlwg*. Tybed nad llygriad sydd yma o ys amlwg, cymh. ll. 14?

semelen Ffurf fenywaidd yr ansoddair syml (cymh. ll. 14: *Salm rnydd*) gyda therfyniad bachigol benywaidd -en, sy'n cyfateb i'r ffurf wrywaidd yn y llinell nesaf. Dyma'r ffurf yn Pen 54 a Pen 57 ond *symlen* / *symlyn* a geir yn y llsgrau eraill. Gall fod yn enw ar gainc ar y delyn: ceir *Symlen Ben Bys* yn enw ar gainc yng ngeiriaduron Thomas Wiliems a John Davies, Mallwyd, ac 'roedd yn gainc boblogaidd yn y 18g., gw. GPC 3387 d.g. symlyn¹.

13 Solffeais, o'm salw ffuaint,	{ Cenais, drwy fy ystryw wael, }
14 Salm rwydd, ys aelaw 'y mraint,	{ salm rwydd, helaeth yw fy mraint, }
15 Ac erddigan gan y gainc	{ a chân ar y gainc }
16 Garuaidd, medd gwyreainc.	{ annwyl, medd gwŷr ifainc. }

*I sang, with poor deception,
an easy psalm, my privilege is great,
and a song set to that lovely
melody, so say young men.*

Llawysgrifau:

C 7, 870-1:	solffiais om salw ffiang ffiaint salm rwydd islaw ymraint ag orddigan gan y gainc garvraidd medd gwyr ievainc	H 26, 318-19:	solfeais om salwfvaint salm rwydd ys aelaw y mraint ag orddigan gan y gainc garuaidd medd gwyr ieuainc
G 3, 212v-213r:	Solffeais o'm salw ffuaint Salm rwydd is aelaw y mraint Ac orddigan gan y gainc gareuaidd medd gwyr ieuainc	Pen 49, 107r-108r:	Solffeais o'm salw ffvaint Salm rwydd y saelaw ymraint Ac orddigan gan y gainc Garvaidd medd gwyr ieuainc
G 4, 34v-35r:	Sol-ffa-ais om salw ffuaint Salm rwydh ys aelaw ymraint Ag ordhigan gan y gainc Garuaidh medh gwyr Ieuainc	Pen 57, 1-2:	----. ----. ac erddigan gan y gainc Garueidd medd gwyreainc

Nodiadau:

13. ffuaint Ffurf amrywiol ar ffuant 'rhagrith, twyll, ystryw', gw. GPC 1322.

15. erddigan Ffurf a gadwyd yn Pen 57 (cymh. Ll 133); *orddigan* ym mwyafrif y llsgrau, sef ffurf ar *gorddigan*, enghreifftiau yn GPC 1470 o ddiwedd yr 16g. ymlaen. Cymh. 38.27: *Hoyw erddigan a ganai* ('Merch, Aderyn a Bedwen'). Ceir *erddigan* hefyd yn rhan o enwau tonau yn yr 17g. a'r 18g., gw. GPC 1231.

16. gwyreainc Diogelwyd y ffurf hon yn Pen 57; *gwyr ieuainc* a rydd y llsgrau eraill. Digwydd y ffurf unigol *gwreang* yn 73.2 yn yr ystyr 'gwas'.

- 17 Coel fuddbwnc ferw celfyddber, { Bwrlwm celfydd a phersain sy'n arwydd o gân fendithiol, }
 18 Cael ym glod, neud cwlm y glêr, { cefais glod, alaw'r glêr, }
 19 Caniadlais edn caneidlon, { llais peraidd aderyn disglair llon, }
 20 Cân a fyn beirdd heirdd yw hon. { cân y mae beirdd hardd yn mynnu ei chael yw hon. }

*A sweet, skilful composition, sign of a rewarding song
 it earned me praise, the minstrels' tune,
 the musical voice of a bright, joyful bird,
 it is a song requested by handsome poets.*

Llawysgrifau:

C 7, 870-1:	kael vfuddbwnc kelfyddber kael ym glod kwlm y gler ----. ----	Pen 49, 107r-108r:	coel vfyddbwnge celfyddber cael i m glod nid cwlm y gler ----. ----
G 3, 212v-213r: :	Coel vfudd-bwnge celfydd-bêr cael i'm glod neud cwlm y glêr ----. ----	Pen 54, 73-5:	----. ----. Kaniadlef aml kaneidlonn Kanyvn beirdd heirdd yw honn
G 4, 34v-35r:	koel ufudhbwnck kelfyddber kael ym glod neud kwlm y glêr ----. ----	Pen 57, 1-2:	Coel vuddbwngk verw keluyddber Cael ym glot neut kwlm y gler Caniadleis edyn kad kaneidlonn kerdduwn beirdd heirdd yw honn
H 26, 318-19:	coel vfuddbwnc celvyddber cael ym glod neud cwlm y gler ----. ----		

Nodiadau: (td. nesaf)

Nodiadau:

17. Darlleniad Pen 57. Anodd dewis rhyngddo a'r fersiwn arall o'r llinell hon, *Coel ufuddbwnc celfyddber*.

buddbwnc Pwnc yn yr ystyr 'nodyn neu fesur cerddorol, cân', gw. GPC 2942. Cymh. 36.8–10: *A bronfraith ar ir brenfrig / Cyn y glaw yn canu'n glau / Ar las bancr eurhwys bynciau*, 147.3 Ac adrodd pynciau godrist. Yng nghyswllt canu'r delyn, cymh. GŶA VIII. 59–60: *Llorfdant, cyweirdant, lle cordier — moliant, / Canoldant, cildant, pynciau baelder*.

18. Ceir cystrawen a thrawiad cynganeddol tebyg yn 73.71: *Cael i minnau, cwlm anun*.

neud Darlleniad Pen 57 unwaith eto, cymh. G 3, G 4 a LlGC 560; nid sydd ym mwyafrif y llsgrau, oherwydd deall clêr mewn ystyr negyddol, mae'n debyg.

cwlm Term technegol arall, sef rhyw fath o ganiad mewn hen gerddoriaeth. Cymh. 159.15–17: *Pob caniad mad mydr angerdd, / Pob cainc o'r organ, pob cerdd, / Pob cwlm addwyn er mwyn merch*, a gw. 75.8n. ar cwlm cytgerdd. Ceir rhestrau o enwau clymau cerdd dant yn T. Gwynn Jones, 'Cerdd Dant', B i (1921–3), 139–56. Gw. ymhellach DGG 196 a GPC 640 a'r enghreifftiau a ddyfynnir yno, e.e. o Statud Gruffudd ap Cynan: *disgybl ysbas graddol a ddyly nybod pump cwlm a chadair ... Disgybl disgyblaidd a ddyly nybod 10 o glymau. Disgybl pennkerddiaidd a ddyly nybod 20 o glymau*.

19–20. Yn Pen 57 a Pen 54 yn unig y digwydd y cwpled hwn. Er bod trefn y cwpledi'n wahanol y mae'n rhagflaenu llau 21–2 yn y ddau destun, a sylwer ar y cymeriad c- yn llau 17–20. Fersiwn Pen 54: *yw Kaniadlef aml kaneidlonn / Kamryn beirdd beirdd yw bonn*, ond ceir y llinell *Kaniadleis edn kaneidlonn*, sy'n cyfateb i fersiwn Pen 57, yn safle llinell olaf ond un y cywydd yn Pen 54.

20. **cân a fyn** Darlleniad petrus ar sail *Kamryn* Pen 54. Rhydd cân gymeriad cryf â caniadlais; sylwer ar gymeriad celfydd y llinellau blaenorol. Mae Pen 57 yn anodd ei ddarllen. *Cerdd a fyn* yw cynnig Thomas Parry, gan ddarllen *kerdd ... yn* yn y llsg. honno. Gall mai *kerdduwn* sydd yn Pen 57. Os felly, mae'n bosib mai duun yw'r ail elfen: *cerdduwn 'cerdd sy'n uno'?* Cymh. 53.17n, 65.51n.

21 Gwae fi na chlyw, mawr yw'r ainc,	{ Gwae fi na chlyw (mae'r blys yn fawr) }
22 Dyddgu hyn o brydyddgainc.	{ Dyddgu y gainc brydyddol hon. }
23 Os byw, hi a'i clyw uwch clwyd	{ Os yw'n fyw, fe'i clyw uwchlaw clwyd }
24 Ysbyslef eos beislwyd,	{ eos lwyd ei mantell, gyfarwydd ei llais, }

*Alas (it is something I desire greatly)
that Dyddgu cannot hear this bardic melody.
If she's alive, she'll hear it above the perch
of a grey-mantled nightingale of familiar voice,*

Llawysgrifau:

C 7, 870-1:	gwae fi na chlyw mawr ywr aink dyddgv hyn o brydyddgainc os by hi ai klyw is klwyd ysbysle eos beislwyd	Pen 49, 107r-108r:	Gwae fi na chlyw mawr yw'r aingc Dyddgv hyn o brydyddgaingc Os byw hi ai clyw is clwyd Ysbyslef eos beislwyd
G 3, 212v-213r:	Gwae fi na chlyw mawr yw 'r aing Dydd-gu hyn o brydydd-gaingc Os byw hi ai clyw is Clwyd ysbys-lef eos beis-lwyd.	Pen 54, 73-5:	Gway vi na chlyw mawr ywr aingk Dyddgv hynn o bryddgaingk Os byw hi ai klyw ywch clwyd yspyslef eos beislwyd
G 4, 34v-35r:	Gwae fi na chlyw mawr yw r aink Dydhgu hynn o brydydhgaink Os byw hi ae klyw is clw Clwyd ysbyslef eos beislwyd	Pen 57, 1-2:	Gwae vi nachlyw mawr ywr aink Dyddgu hynn o brydyddgaink Os byw hi ay clyw vwch clwyt ysbyslef eos beislwyt
H 26, 318-19:	gwae vi na chlyw mawr yw'r gainc Dyddgu hynn o brydyddgainc os byw hi ai clyw is Clwyd ysbysle eos beislwyd		

Nodiadau:

21. Dyma'r unig linell ddigynghanedd, ond ar sail y llsgrau nid oes dim rheswm i'w diwygio.

23. **uwch** Mae Pen 57 a Pen 54 yn gytûn; *is chlyd* yn ôl y llsgrau eraill, cymh. GDG. Ceir *oddîs* yn y llinell nesaf ond un. Bydd Dyddgu'n clywed yr eos yn canu ar ben ei chlwyd. Cymharwyd y gainc â chan aderyn yn ll. 19 uchod.

25 O ddysg Hildr oddis cildant,	{ o ddysg Hildr islaw cildant, }
26 Gormodd cerdd, gŵr meddw a'i cant;	{ cân ormodol, gŵr meddw a'i canodd; }
27 Llef eurloyw fygr llafurlais,	{ llef wych, loyw ac ysblennydd llais diwyd, }
28 Lleddf ddatbing llwybr sawtring Sais.	{ atsain dyner debyg i saltring Sais. }
29 Ni wnaeth pibydd ffraeth o Ffrainc	{ Ni wnaeth pibydd rhwydd o Ffrainc }
30 Na phencerdd ryw siffancainc.	{ na phencerdd y fath gainc gerddorol. }

*of Hildr's expertise just beneath the treble-string,
an extravagant song, sung by a drunken man;
the fine sound of a persistent voice, bright and splendid,
a gentle resonance like an Englishman's psaltery.
No fluent French piper
nor any master-musician ever composed such a melody.*

Llawysgrifau:

C 7, 870-1:	----. ----. llef evroyw fygr llafarlais lleddf ddatbing llwybr sawtring sais ni wnaeth pibydd ffraeth o ffraink : na ffengerdd rrvw soffangkaink	Pen 49, 107r-108r:	A ddysc hildr o ddis cildant [108r] gormodd cerdd gwr meddw ai cant llef evroyw fygr llafarlais lleddf ddatbing llwybr sawtring sais Ni wnaeth pibydd ffraeth o ffraink Na phencerdd ryw saffangcaingc
G 3, 212v-213r:	Addysc hildr oddis cil-dant gormodd cerdd gwr meddw a'i cant : Llef eur-loew fygr llafar-lais lleddf ddatbing llwybr sawtring Sais Ni wnaeth pibydd ffraeth o Ff[]jingc Na phen-cerdd ryw saffan-caingc	Pen 54, 73-5:	O ddysg hildr o ddis kildant Gormodd kerdd gwr meddw ay kant llavvrlef tant llef orleis lleddf ddatping llwybr sawtring sais Ni wnaeth pibydd ffrayth o ffraink Na ffengerdd rrvw saffankaingc
G 4, 34v-35r:	Adhysg Hildr odh is kildant Gormodh kerdd gwr meddw ae kant llef eurloyw fygr llafarlais lledhf ddatbing llwybr sawtring sais Ni wnaeth pibydh ffraeth o ffraink Na phenkerdd ryw saffankaink	Pen 57, 1-2:	O ddysc hildr o ddis kildant Gormodd kerdd gwr meddw ay kant llef orloyw vygr llafurleis lleddyf ddatping llwybr sawtring seis [2] Ny wnaeth pibydd ffraeth o ffraink Na ffengerdd rrvw saffankeink
H 26, 318-19:	a ddysc hildr oddysc cildant gormodd cerdd gwr meddw ai cant llef eurloyw vygr llavarlais lleddf ddatbing llwybr sawtring Sais ni wnaeth pibydd fraeth o frainc na phencerdd ryw safangrainc		

Nodiadau: (td. nesaf)

Nodiadau:

25. Hildir Ymddengys fod Hildir yn bencerdd ac athro cerdd dant. Enwir *C[aniad] Crych i Hildir* a *C[aniad] Adda Pildir (ap Hildir)* yn y rhestr o gyweiriau cerdd dant a geir yn Pen 77, gw. T Gwynn Jones, 'Cerdd Dant', 149–50; cymh. M2 1075: *Adda ab Hildir* (o lawysgrif Robert ap Huw).

26. Cymh. 99.11–12: *Gwrle telyn ac orloes, / Gormodd rhodd; gŵr meddw a'i rhoes.*

27. Ceir disgrifiad tebyg o'r eos ym Marwnad Gruffudd ab Adda, 21.5–8: *Catbl olaes edn coeth loywlef, / Cau ei nyth, cerdd cym o nef; / Euraid ylf ar we dalfainc, / Orlais goeth ar irlas gainc.* Darlleniad mwyafrif y llsgrau yw *Llef eurloyw fygr llafarlais*; Pen 57: *llef or(?)loyw vygr llafurleis.* Dilynodd GDG Pen 54: *llavrlef tant llef orleis*, ond mae ailadrodd y gair llef yn bwrw amheuaeth ar y darlleniad hwnnw. Ar y llaw arall, cysylltir cân yr eos â sŵn orlais yn y dyfyniad uchod a chymh. 99.11: *Gwrle telyn ac orloes.* Mae *llafurlef* Pen 54 yn tueddu i gefnogi *llafurlais* Pen 57 ar draul *llafarlais* y llsgrau eraill.

28. datbing 'Atsain; nodau cerddorol' (dat- + *ping* neu *pyng*, amrywiad ar pwnc 'nodyn cerddorol'), GPC 901. Hon yw'r unig enghraifft.

sawtring Cymherir y ffurf yn GPC 3187 â'r Hen Ffrangeg sauterion sef *saltring*, ond gallasai darddu o ffurf Saesneg Canol megis *sawtree*, *sauteray*, *sautrie*, gw. OED d.g. psaltery. Offeryn cerdd oedd saltring ac iddo seinfwrdd a thannau fel y dwsmel, ond a genid â'r bysedd yn hytrach nag â morthwylion, gw. GPC 3173, GDG t. 545. Mae'r ystyr 'atsain', felly, yn gweddu'n dda i datbing. Ceir yr un math o drosiadau cerddorol am yr eos yn y cywydd ymddiddan rhwng Dafydd a Madog Benfras, e.e. 155.44–6: *Chwibanog! chwe buanach, / Meistres organau Maestran, / No chant, o'r cildant y cân.* Felly hefyd yn y cywydd ansicr ei awduraeth, 'Yr Eos a'r Frân', sy'n cynnwys y ddelwedd *Canghenddring cainc sawtring serch* (154.14). Cymh. yn ogystal IGE t. 302.28: *Pob sntr tabwrdd, pob sawtring* (Rhys Goch Eryri). 29. *pibydd* Cymherir cân yr eos â sain yr offerynnau chwyth ffithlen (ffliwt) a chwibanogl yn 155.36, 44.

30. n wreiddgoll.

siffancainc Dyma'r ffurf yn Pen 57 a Pen 54; amrywiadau ar *saffancainc* sydd yn y llsgrau eraill. Tebyg mai ffurf ar *simffan* neu *sinffan* sydd yma (o'r Saesneg *simphan*, *synphan*), sef term cyffredinol am offeryn cerddorol, gw. 26.18n. ar *simffan*. Diddorol sylwi bod Chaucer yn cyplysu symphonie â thelyn a phibau, OED d.g. symphony: *With harpe and pype and symphonie.* Cymh. ib. d.g. *symphan: Harpes, pypes, & tabours ... Belles, chymbes, & symfan* (c. 1330).

31 Poed anolo fo ei fin,	{ Boed ei wefusau'n ddiwerth, }
32 A'i gywydd a'i ddeg ewin,	{ a'i gywydd a'i ddeg ewin, }
33 A gano cerdd ogoniant,	{ y sawl a fo'n canu cerdd o fawl }
34 Ni cherydd Duw, na cherdd dant,	{ (ni fydd Duw'n ei geryddu), neu gerdd dant, }
35 Goleuglaer ddyn golyglon,	{ i ferch ddisglair olau, lon ei llygaid, }
36 Ac e'n cael canu'r gainc hon.	{ ac yntau'n cael y cyfle i ganu'r gainc hon. }

*Let his lips be worthless,
along with his cywydd and his ten fingernails,
who may sing a song of praise
(God won't reproach him), or a harp-song,
for a bright, radiant, glad-eyed girl,
when he's allowed to sing this melody.*

Llawysgrifau:

C 7, 870-1:	poed anolo fo i fin ai gowydd ai ddeg ewin a gano kerdd o ogoniant ni cherydd duw na cherdd dant gwiw loywgloyw aer ddyn golyglon ag yn cael kanvr gainc hon	Pen 49, 107r-108r:	poed anolo fo i fin ai gywydd ai ddeg ewin A gano cerdd ogoniant Ni cherydd Duw na cherdd dant Gwiw loywglaer ddyn golyglonn Ac yn cael canv'r gainc honn
G 3, 212v-213r:	Poed annolo fo i fin Ai gywydd a'i ddeg ewin A gano cerdd ogoniant ni cherydd Duw na cherdd dant Gwiw loew-glaer ddyn golyglon ac yn cael canu 'r gainc hon.	Pen 54, 73-5:	[75] boed anolo vo i vin y gywydd ai ddeg ewin a gano kerdd ogoniant Kaniadlais edn kaneidlonn Ni cherydd duw na cherdd dant Ac enkayl kanv r geingc honn
G 4, 34v-35r:	Poen annolo fo i fin Ae gowydh ae dheg ewin [35r] A gano kerdh ogoniant Ni cherydh Duw na cherdh dant Gwiw loywglaer dhyn golyglon Ag yn cael kanu r gainc honn	Pen 57, 1-2:	Poet anolo vo ay vin Ay gywydd ay ddec ewin A gano kerdd o gonyant Ny cherydd duw nacherdd dant Goleuglaer ddyn golyglonn Ac en kael kanur gainc honn
H 26, 318-19:	poed anolo vo i vin ai gywydd ai ddeg ewin a gano cerdd ogoniant ni cherydd Duw na cherdd dant gwiw loywglaer ddyn golyglon ac yn cael canu r gainc hon		

Nodiadau: (td. nesaf)

Nodiadau:

32. a'i ddeg ewin Cymh. 24.39–40: *Ni chân bardd i ail hardd hin / Gynydd gyda'i ddeg ewin...* .

35. goleuglaer Darlleniad Pen 57. Anodd dewis rhyngddo a *gwin loynglaer* mwyafrif y llsgrau, sef yr hyn a geir yn GDG.

36. Ac e'n cael ... Dyma ddarlleniad Pen 57 a Pen 54, ac mae'n rhagori o ran cystrawen ar *Ac yn cael ...* y llsgrau eraill a thestun GDG. Ceir enghraifft gynnar arall o dalfyrro'r rhagenw ef gan Fadog Dwygraig, GMD 17.3: *Ac e'n dyfod o'r rhodnydd* (gw. n.). Fel sy'n gyffredin yng nghywyddau Dafydd ceir melltith yn y diweddglo: melltith ar unrhyw un sy'n canu cerdd heblaw ar y gainc hon.

'Y GAINC' (ARALLEIRIAD)

Dysgais ryw gainc baradwysaidd â'm dwylo i ar ben mainc, ac 'roedd yr hyn a ddysgwyd (dyna arfer dyn) yn enwogi'r delyn am ysbaid.	4
Dyma'r gainc ar fy mainc i, o ganol oed serch yn blethiadau o fawl teilwng merch fonheddig a luniais i â ffram frodio serch.	8
Meddai merched y gwledydd amdanaf fi (oherwydd fy natur y mae hynny): 'Tôn syml, eglur ei dull yw hon, a thwpsyn yw'r dyn sy'n ei dwyn.'	12
Cenais, drwy fy ystryw wael, salm rwydd, helaeth yw fy mraint, a chân ar y gainc annwyl, medd gwŷr ifainc.	16
Bwrlwm celfydd a phersain sy'n arwydd o gân fendithiol, cefais glod, alaw'r glêr, llais peraidd aderyn disglair llon, [20] cân y mae beirdd hardd yn mynnu ei chael yw hon.	20
Gwae fi na chlyw (mae'r blys yn fawr) Dyddgu y gainc brydyddol hon. Os yw'n fyw, fe'i clyw uwchlaw clwyd eos lwyd ei mantell, gyfarwydd ei llais, o ddysg Hildr islaw cildant, cân ormodol, gŵr meddw a'i canodd; llef wych, loyw ac ysblennydd llais diwyd, atsain dyner debyg i saltring Sais.	24
Ni wnaeth pibydd rhwydd o Ffrainc na phencerdd y fath gainc gerddorol.	28
Boed ei wefusau'n ddiwerth, a'i gywydd a'i ddeg ewin, y sawl a fo'n canu cerdd o fawl (ni fydd Duw'n ei geryddu), neu gerdd dant, i ferch ddisglair olau, lon ei llygaid, ac yntau'n cael y cyfle i ganu'r gainc hon.	32
	36

'THE MELODY' (SAESNEG)

I learnt a heavenly melody
with my own two hands on the end of a bench,
and what I learnt (such is man's custom)
brought honour to the harp for a while. 4

This is the melody, there upon my bench,
that I composed from a love-tryst,
weaving a noble girl's worthy praise
on love's embroidering frame. 8

All the girls of the land,
because of my nature, say of me:
'This is but a simple, obvious melody,
and a simpleton is the man who brings it.' 12

I sang, with poor deception,
an easy psalm, my privilege is great,
and a song set to that lovely
melody, so say young men. 16

A sweet, skilful composition, sign of a rewarding song,
it earned me praise, the minstrels' tune,
the musical voice of a bright, joyful bird,
it is a song requested by handsome poets. 20

Alas (it is something I desire greatly)
that Dyddgu cannot hear this bardic melody.
If she's alive, she'll hear it above the perch
of a grey-mantled nightingale of familiar voice, 24
of Hildir's expertise just beneath the treble-string,
an extravagant song, sung by a drunken man;
the fine sound of a persistent voice, bright and splendid,
a gentle resonance like an Englishman's psaltery. 28
No fluent French piper
nor any master-musician ever composed such a melody.

Let his lips be worthless,
along with his cywydd and his ten fingernails, 32
who may sing a song of praise
(God won't reproach him), or a harp-song,
for a bright, radiant, glad-eyed girl,
when he's allowed to sing this melody. 36

C 7, 870–1

kowydd y gaink

- 1 Dysgais rvw baradwysgaink
- 2 ar dwylo mav ar dal maink
- 3 a dysgiad dywygiad dyn
- 4 evrai dalm ar y delyn
- 7 o deilyngfawl edlingferch
- 8 a brydais i a brawyd serch
- 9 [871] Meddynt ferched y gwledydd
- 10 am danaf i om dawn fydd
- 11 symlen ywr gaink os amlwg
- 12 a symlyn ywr dyn ai dwg
- 13 solffiais om salw ffiang ffiaint
- 14 salm rwydd islaw ymraink
- 15 ag orddigan gan y gaink
- 16 garvraidd medd gwyr ievaink
- 17 kael vfvddbwnk kelfyddber
- 18 kael ym glod kwlwm y gler
- 21 gwae fi na chlyw mawr ywr ainck
- 22 dyddgv hyn o brydyddgaink
- 23 os by hi ai klyw is klwyd
- 24 ysbysle eos beislwyd
- 27 llef evrloyw fygr llafarlais
- 28 lleddf ddatbing llwybr sawtring sais
- 29 ni wnaeth piwydd ffraeth o ffraink
- 30 na fferkerdd rrvw soffangkaink
- 31 poed anolo fo i fin
- 32 ai gowydd ai ddeg ewin
- 33 a gano kerdd o ogoniant
- 34 ni cherydd duw na cherdd dant
- 35 gwiw loywgloyw aer ddyn golyglon
- 36 ag yn kael kanvr gaink hon

dauidd ap glim ai kant

G 3, 212V–213R

Ir gaingc a elwir Symlen.

- 1 Dyscais ryw baradwys-gaingc
- 2 ar dwylaw mau ar dâl maingc
- 3 Ar dysciad diwygiad dyn
- 4 eurai dalm ar y delyn
- 5 A hon yw'r gaingc ar faingc fau
- 6 o blith oed o blethiadau
- 7 o deilyng-fawl edling-ferch
- 8 a brydais i a brwyd serch
- 9 [213r] Meddant ferched y gwledydd
- 10 am danafi o'm dawn fydd
- 11 Symlen yw'r gaingc os amlwg
- 12 a Symlyn yw'r dyn ai dwg
- 13 Solffeais o'm salw ffuaint
- 14 Salm rwydd is aelaw y mraint
- 15 Ac orddigan gan y gaingc
- 16 gareuaidd medd gwyr ieuaingc
- 17 Coel vfudd-bwngc celfydd-bêr
- 18 cael i'm glod neud cwlm y glêr
- 21 Gwae fi na chlyw mawr yw 'r aing
- 22 Dydd-gu hyn o brydydd-gaingc
- 23 Os byw hi ai clyw îs Clwyd
- 24 ysbys-lef eos beis-lwyd.
- 25 Addysc hildr oddis cil-dant
- 26 gormodd cerdd gwr meddw a'i cant
- 27 Llef eur-loew fygr llafar-lais
- 28 lleddf ddatbing llwybr sawdring Sais
- 29 Ni wnaeth pibydd ffraeth o Ff[]jincg
- 30 Na phen-cerdd ryw saffan-caingc
- 31 Poed annolo fo i fîn
- 32 Ai gywydd a'i ddeg ewin
- 33 A gano cerdd ogoniant
- 34 ni cherydd Duw na cherdd dant
- 35 Gwiw loew-glaer ddyn golyglon
- 36 ac yn cael canu 'r gaingc hon.

dd ap Gwilym

G 4, 34V–35R

Dafydd ap Glm ir gainck a elwid Symlen

- 1 Dysgais ryw baradwysgaink
- 2 Ar dwylaw mau ar dal maink
- 3 Ar dysgiad diwygiad dyn
- 4 Eurai dalm ar y delyn
- 5 A honn yw 'r gaink ar faink fau
- 6 O blith oed o blethiadau
- 7 O deilyngfawl edlingferch
- 8 A brydais i a brwyd serch
- 9 Medhant ferched y gwledyd
- 10 Am dana fi om dawn fydh
- 11 Symlen yw 'r gainck os amlwg
- 12 A symlyn yw 'r dyn ae dwg
- 13 Sol-ffa-ais om salw ffuaint
- 14 Salm rwydh ys aelaw ymraint
- 15 Ag ordhigan gan y gaink
- 16 Garuaidh medh gwyr Ieuaink
- 17 koel ufudhbwnck kelfydhber
- 18 kael ym glod neud kwlm y glêr
- 21 Gwae fi na chlyw mawr yw r aink
- 22 Dydhgu hynn o brydydhgaink
- 23 Os byw hi ae klyw is clw Clwyd
- 24 ysbyslef eos beislwyd
- 25 Adhysg Hildr odh is kildant
- 26 Gormodh kerth gwr medhw ae kant
- 27 llef eurloyw fygr llafarlais
- 28 lledhf dhatbing llwybr sawdring sais
- 29 Ni wnaeth pibydh ffraeth o ffraink
- 30 Na phenkerth ryw saffankaink
- 31 Poen annolo fo i fin
- 32 Ae gowydh ae dheg ewin
- 33 [35r] A gano kerth ogoniant
- 34 Ni cherydh Duw na cherth dant
- 35 Gwiw loywglaer dhyn golyglon
- 36 Ag yn kael kanu r gaink honn

H 26, 318–19

{ko: y gaink}

- 1 Dyscais ryw baradwysgainc
- 2 ar dwylaw mav ar dal mainc
- 3 ar dysciad dywygiad dyn
- 4 eurai dalm ar y delyn
- 5 a hon ywr gainc ar vainc vav
- 6 o blith oyd o blethiadav
- 7 i deilyngvawl edlingverch
- 8 a brydaisi a brwyd serch
- 9 [319] meddynt verched y gwledydd
- 10 am danafi, o'm dawn vydd
- 11 symlen yw'r gainc os amlwg
- 12 a symlyn yw'r dyn ai dwg
- 13 solfeais om salwfvaint
- 14 salm rwydd ys aelaw y mraint
- 15 ag orddigan gan y gainc
- 16 garuaidd medd gwyr ieuainc
- 17 coel vfuddbwnc celvyddber
- 18 cael ym glod neud cwlm y gler
- 21 gwae vi na chlyw mawr yw'r gainc
- 22 Dyddgu hynn o brydyddgainc
- 23 os byw hi ai clyw is Clwyd
- 24 ysbysle eos beislwyd
- 25 a ddysc hildr oddysc cildant
- 26 gormodd cerdd gwr meddw ai cant
- 27 llef eurloyw vygr llavarlais
- 28 lleddf ddatbing llwybr sawtring Sais
- 29 ni wnaeth pibydd fraeth o frainc
- 30 na phencerdd ryw safangrainc
- 31 poed anolo vo i vin
- 32 ai gywydd ai ddeg ewin
- 33 a gano cerdd ogoniant
- 34 ni cherydd Duw na cherdd dant
- 35 gwiw loywglær ddyn golyglon
- 36 ac yn cael canu r gainc hon

Dauid ap Gwilim

Nodiadau: 8+ Rhwir yr 8 llinell nesaf mewn blwch, sef cerdd 89.17–24, ac ysgrifennir darn or cywyd nesa ond vn gan y copiwr.

PEN 49, 107R–108R

- 1 Dysgais ryw baradwysgaingc
- 2 Ar dwylaw mav ar dal maingc
- 3 [107v] Ar dysciad dywygiad dyn
- 4 Evrai dalm ar y delyn
- 5 A hon yw'r gaingc ar faingc fav
- 6 O blith oed o blethiadav
- 7 I deilyngfawl edlingferch
- 8 A brydais i ebrwyd serch
- 9 Meddynt ferched y gwledydd
- 10 Am danafi o'm dawn fydd
- 11 Symlyn yw'r gaingc os amlwg
- 12 A Symlyn yw'r dyn ai dwg
- 13 Solffeais o'm salw ffvaint
- 14 Salm rwydd y saelaw ymrainc
- 15 Ac orddigan gan y gaingc
- 16 Garvaidd medd gwyr ievaingc
- 17 coel vfyddbwnge celfyddber
- 18 cael i m glod nid cwlm y gler
- 21 Gwae fi na chlyw mawr yw'r aingc
- 22 Dyddgv hyn o brydyddgaingc
- 23 Os byw hi ai clyw is clwyd
- 24 Ysbyslef eos beislwyd
- 25 A ddysc hildr o ddis cildant
- 26 [108r] gormodd cerdd gwr meddw ai cant
- 27 llef evrloyw fygr llafarlais
- 28 lleddf ddatbing llwybr sawtring sais
- 29 Ni wnaeth pibydd ffraeth o ffraingc
- 30 Na phencerdd ryw saffangcaingc
- 31 poed anolo fo i fin
- 32 ai gywydd ai ddeg ewin
- 33 A gano cerdd ogoniant
- 34 Ni cherydd Duw na cherdd dant
- 35 Gwiw loywglaer ddyn golyglonn
- 36 Ac yn cael canv'r gaingc hon

Da' ap Glm'

Darlleniadau Amrywiol:

11: Symlen / 14: y[s] (s)aelaw / 18: neud / 25: odd îs

107
Et i gunddyliaib i gunddyliaib
Ou gual dindig i u gual dindig
tyd hoi anadid gunddyliaib gunddyliaib
i gual oddi wry i gunddyliaib
mai dindig mi ai dindig
myn dindig fair fow dindig fow
Ni wrydiad hwyd dindig hwyd
I dindig i bod dindig
Nid oall fair an gunddyliaib gunddyliaib
dindig m gunddyliaib gunddyliaib
Od a bon an i gunddyliaib
I gunddyliaib gunddyliaib gunddyliaib
I gunddyliaib gunddyliaib gunddyliaib
A gunddyliaib gunddyliaib gunddyliaib
Eir fow yn dindig dindig
Eir dindig fow dindig i dindig
Da ap gunddyliaib
99
Dindig dindig dindig dindig
A dindig dindig dindig dindig

In dyfriad dyfrygiad dyf
 Rorai dalm ar y dilyn
 A gon yw'n gairys ar fainyr ^{Fab}
 O bliz oed a bletpiadab
 I dilyngfawol odingferog
 A bydaib i obrroyd fery
 Medynt feriged y gloc dydd
 Am danaf o'm daban fedy
 Cymlyn yw'n gairys ob am lwy
 A Cymlyn yw'n dyn ai dny
 O offcaib o'm fulw ffraint
 Balm wroyd y faelaw ymwaime
 A ordigan gan y gairys
 Barbaidd medd gwy yw'n gairys
 roel wfyddbrongt welfydd ber
 rael i m gloc mid rholu y gler ^{new}
 Gwae fi na wlyw mawr yw'n gairys
 Dyddyr hyn o bydyddgairys
 Oe byw yi ai rlyw id rroyd
 yfystfeycoo beiflroyd
 A dyf gitor o dyf rildant ^{odd i}
 yormoid

Pen 49: 107, verso

208
yoxmold rerd ghor medro ai rant
llafstortloyw fygw llafarlai'b
lloddf Datbmg llroybz fawbrmg fad
ni ronach pibyd ffuarly o ffraingt
Nawpffurterdd wyw faffmgtraingt
pood anolo fo i fm
ai ydydd ai dey dwin
Cl yano rerd oymant
ni rgydd Dub na rgydd dant
ffwiro loynglacr dyn golyglon
Ar yn rael rarb u ganngt gon
100 Da. ap Gfm
f feras a roeb merr i mi
Ceren fylys nant y Ceri
Mourroyn wyg mid ymarn ab
moufydd wyl mawr feddyhiab
rud rollwyst o wibndwyst, lobyw
fy anegpily a fo iadwnefflyw
yd bo brid yn newid ni
puid oedh i'r priod iddi

Pen 49: 108, recto

PEN 54, 73-5

- 1 Dysseis ryw baradwysgeingk
- 2 Or dwylaw mav ar dal meingk
- 5 llymar gaingk ar y veingk vav
- 6 O blith oed yn blethiadav
- 7 O deilyngvawl edlingverch
- 8 A brydais i a brwyd serch
- 9 [74] meddei verched y gwledydd
- 10 am danaf vi om dawn vydd
- 11 Semlen yw honn naww amlwg
- 12 a symlyn ywr dyn ai dwg
- 29 Ni wnayth pibydd ffrayth o ffraingk
- 30 Na ffenkerdd rryw siffankaingk
- 25 O ddysg hildr o ddis kildant
- 26 Gormodd kerdd gwr meddw ay kant
- 27 llavvrlef tant llef orleis
- 28 lleddf ddatping llwybr sowtring sais
- 19 Kaniadlef aml kaneidlonn
- 20 Kanvyn beirdd heirdd yw honn
- 21 Gway vi na chlyw mawr ywr aingk
- 22 Dyddgv hynn o bryddgaingk
- 23 Os byw hi ai klyw ywch clwyd
- 24 yspyslef eos beislwyd
- 31 [75] boed anolo vo i vin
- 32 y gywydd ai ddeg ewin
- 33 a gano kerdd ogoniant
- 34 Ni cherydd duw na cherdd dant
- 35 Kaniadleis edn kaneidlonn
- 36 Ac enkayl kanv r geingk honn

Dauit ap guili'

- Eþð aduuo þoþq ðv þeþq þam
 Eþð ðeþyþ þaþaþ ðiþam
 - Eaðe æþmøþ þeþð ð æœnø
 Eþð tþeþyþþm þam ð ð
 - Eþð aduuo þoþq ðv þeþq
 Eþð ðeþyþþeþðeþ þeþðeþþeþ
 - Eþð æþþeþ þeþð Eþð ðeþyþþeþ
 Eþð ðeþð meþm Eþð yþþeþmeþ
 Eþð ðvþam þeþq Eþð yþeþþeþ
 - Eþð ðeþð þeþyþ ðeþðeþþeþ
 yþ æþþ ðv meþmeþþeþ meþþ
 þamþ þeþþeþ þam
 Eþð þeþ þeþ þeþþeþþeþ
 Eþð ðeþþeþ meþ þeþ ðeþ meþþeþ
 Eþð meþ þeþþeþþeþ ðv þeþþeþ þeþ
 Eþð ðeþþeþ meþ þeþþeþþeþ
 Eþð ðeþþeþþeþ meþþeþþeþ
 Eþð ðeþþeþþeþ þeþþeþþeþ
 73

Pen 54: 73, recto

— mæsse wæter & geolc 300
— An Gmæf bi om 3a 10n 300
— Frembræges þum næas Ambræt
— A þum þu þe þu syn. li 200
— A cæniges þe 300 þæt 200
— A frembe 200 þæt 200
— O 200 þæt 200 þæt 200
— Gmæsse 200 200 mæsse 200
— Alæge þæt 200 þæt 200
— Alæge 200 þæt 200 þæt 200
— A 200 þæt 200 þæt 200
— A 200 þæt 200 þæt 200
— Gæry bi mæc 200 mæc 200
— 200 200 200 200
— Do þæt 200 þæt 200 þæt 200
— 200 200 200 200

Pen 54: 74, verso

PEN 57, 1-2

cywyd y geink

- 9 //Meddei verchet y gweledydd
- 10 Am danaf vi am dawn vydd
- 11 Semlen yw honn os amlwc
- 12 A symlyn ywr dyn ay dwc
- 15 ac erddigan gan y gaink
- 16 Garueidd medd gwyreaink
- 17 Coel vuddbwngk verw keluyddber
- 18 Cael ym glot neut kwlm y gler
- 19 Caniadleis edyn kad kaneidlonn
- 20 kerdduwn beirdd heirdd yw honn
- 21 Gwae vi nachlyw mawr ywr ainke
- 22 Dyddgu hynn o brydyddgaink
- 23 Os byw hi ay clyw vwch clwyt
- 24 ysbyslef eos beislwyt
- 25 O ddysc hildr o ddis kildant
- 26 Gormodd kerdd gwr meddw ay kant
- 27 llef orloyw vygr llafurleis
- 28 lleddyf ddatping llwybr sawtring seis
- 29 [2] Ny wnaeth pibydd ffraeth o ffraink
- 30 Na ffenkerdd rryw siffankeink
- 31 Poet anolo vo ay vin
- 32 Ay gywydd ay ddec ewin
- 33 A gano kerdd o gonyant
- 34 Ny cherydd duw nacherdd dant
- 35 Goleuglaer ddyn golyglonn
- 36 Ac en kael kanur gaink honn

Davydd heuyd ay cant

tæddu veirheit yggilest þú
 Ám Dmaf þu am Saabn þýðð
 Þunlon þu þom eo amllc
 A sym hvi vllc þyn us Sabo
 Ac etþogam gam y gamt
 Eym þu með gæysamt
 Loct þu þu þu vllc þu þu þu
 Tætt þu þu þu þu þu þu
 Tætt þu þu þu þu þu þu
 Tætt þu þu þu þu þu þu
 Tætt þu þu þu þu þu þu
 Tætt þu þu þu þu þu þu
 Tætt þu þu þu þu þu þu
 Tætt þu þu þu þu þu þu
 Tætt þu þu þu þu þu þu
 Tætt þu þu þu þu þu þu
 Tætt þu þu þu þu þu þu
 Tætt þu þu þu þu þu þu
 Tætt þu þu þu þu þu þu

Pen 57: 1, recto

2^e v et naecth pibns fraeth s flumk
La fenterd nyet fiffantemk
Doet anolo wo up em
ly gyllyd ap Dec edim
A gano kerde s gomant
Pychelye gull nacherd dunt
Goleugher dym golyglom
So on fuel karre gamk em

Dumdd herup ap car
Gingherupit daim Gyrupit
Frost sefar blauger blauger blout
Ap pluaad s o keplew
So ap pylle naecth gbaeth no gan
Fesym s gymbherupit a yne
So amill s gymbherupit
Nes gbaeth em yn Ginet
v dym glan v dym glot
Ane apaf s dymberupit
dym gloc meby noc ap em

Pen 57: 2, verso

BYRFODDAU

Llawysgrifau

A	Aberdâr (LIGC 5474–5)
Ba	Bangor
Ba (M)	Bangor (Mostyn)
Ba (P)	Bangor (Penrhos)
Bd	Bodewryd
Bl	Bodleian
BL	British Library Additional
BM	British Museum (rhifau RWM)
Br	Brogyntyn (y gyfres gyntaf)
C	Llyfrgell Ganolog Caerdydd (rhifau RWM a rhifau'r llyfrgell)
CM	Cwrtmawr
G	Gwynedd
Gw	Gwysanau (LIGC 17113–14, 17121)
H	Hafod (Llyfrgell Ganolog Caerdydd)
IAW	Iolo Aneurin Williams (LIGC 21289–91)
J	Coleg yr Iesu
JGE	J. Gwenogvryn Evans (LIGC 19901–5)
Ll	Llanstephan
LIGC	Llyfrgell Genedlaethol Cymru
LlH	Llawysgrif Hendregadredd (LIGC 6680)
M	Mostyn (rhifau RWM = LIGC 3021–66)
MT	llawysgrif Merthyr Tudful (LIGC 970)
Pa	Panton (LIGC 1979, 2014, 2021)
Pen	Peniarth
T	llawysgrif Tanybwlech (LIGC Mân Adnau 1206)
Th	llawysgrif Thelwall (C 5.167)
Wy	Wynnstay

Llyfryddol

- APDG Bromwich, *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym*
Arch Camb *Archaeologia Cambrensis*
- BaTh Morfydd Owen a Brynley Roberts (gol.), *Beirdd a Thyngysogion* (Caerdydd, 1996)
B *Bwletin y Bwrdd Gnybodaau Celtaidd*
BB J. J. Parry (gol.), *Brut y Brenbinedd* (Cambridge, Mass., 1937)
BBBGDd Johnston (gol.), *Blodengerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg*
BC *Y Bymgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953)
BDG Jones ac Owen (gol.), *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym*
BHLIG Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg*
BT J. Gwenogvryn Evans (gol.), *Facsimile & Text of The Book of Taliesin* (Llanbedrog, 1910)
BU Bowen (gol.), *Barddoniaeth yr Uchelwyr*
BWP iii Stanley Cramp *et al.* (gol.), *Handbook of the birds of Europe, the Middle East and North Africa: the birds of the Western Palearctic, vol. 3: waders to gulls* (Oxford, 1983)
- CA I. Williams (gol.), *Canu Aneirin* (Caerdydd, 1938)
CAMBM *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum in the years 1841–1845* (London, 1850)
CBT *Cyfes Beirdd y Tynngysogion*
CD Morris-Jones, *Cerdd Dafod*
CLIGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*
CLIH I. Williams (gol.), *Canu Llywarch Hen* (Caerdydd, 1935)
CMCS *Cambridge Medieval Celtic Studies* (hyd at rifyn 25 (1993) / *Cambrian Medieval Celtic Studies* (o rifyn 26 (1993))
CMOC Johnston (gol.), *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol*
CRhC T. H. Parry-Williams (gol.), *Canu Rhydd Cynnar* (Caerdydd, 1932)
CSTB Donovan (gol.), *Cynyddau Serch y Tri Bedo*
CO Rachel Bromwich a D. Simon Evans (gol.), *Culhwch ac Olwen* (Caerdydd, 1988)
CO² Rachel Bromwich and D. Simon Evans (gol.), *Culhwch ac Olwen* (Cardiff, 1992)
Cyd² Meic Stephens (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1997)
ChO Ifor Williams (gol.), *Chwedlau Odo* (ail arg., Caerdydd, 1957)
- D John Davies, *Dictionarium Duplex* (Londinium, 1632)
DOC Nesta Lloyd a Morfydd E. Owen (gol.), *Drych yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1986)
DG Dafydd ap Gwilym
DGA Fulton (gol.), *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha*
DGChSOC Rowlands (gol.), *Dafydd ap Gwilym a Chanu Serch yr Oesoedd Canol*
DGEC Fulton, *Dafydd ap Gwilym and the European Context*
DGG Williams a Roberts (gol.), *Cynyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoesnyr*
DGHP Thomas, *Dafydd ap Gwilym: His Poems*
DGIA Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues*
DGTP Loomis, *Dafydd ap Gwilym: The Poems*
- EANC R. J. Thomas, *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (Caerdydd, 1938)
EC *Etudes Celtiques*
EWGP Kenneth Jackson (gol.), *Early Welsh Gnomie Poems* (Cardiff, 1935)
EWGT P. C. Bartrum (gol.), *Early Welsh Genealogical Tracts* (Cardiff, 1966)
- FfBO Stephen J. Williams (gol.), *Ffordd y Brawd Odrig* (Caerdydd, 1929)

G	Lloyd-Jones, <i>Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg</i>
GBDd	Daniel (gol.), <i>Gwaith Bleddyn Ddu</i>
GC	Daniel (gol.), <i>Gwaith Casnodyn</i>
GCBM	Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (gol.), <i>Gwaith Cynnddelw Brydydd Mawr</i> (2 gyfrol, Caerdydd, 1991, 1995)
GDB	N. G. Costigan (Bosco) <i>et al.</i> (gol.), <i>Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg</i> (Caerdydd, 1995)
GDC	Daniel (gol.), <i>Gwaith Dafydd y Coed a Beirdd Eraill o Lyfr Coch Hergest</i>
GDE	Roberts (gol.), <i>Gwaith Dafydd ab Edmwnd</i>
GDEp	Thomas (gol.), <i>Gwaith Dafydd Epynt</i>
GDG	Parry (gol.), <i>Gwaith Dafydd ap Gwilym</i>
GDGor	Rheinallt (gol.), <i>Gwaith Dafydd Gorlech</i>
GDID	Davies (gol.), <i>Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen</i>
GDLI	Richards (gol.), <i>Gwaith Dafydd Llwyd o Fatbafarn</i>
GEO	Gruffydd ac Ifans (gol.), <i>Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug</i>
GGDT	Costigan <i>et al.</i> (gol.), <i>Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli</i>
GGGI	Williams a Williams (gol.), <i>Gwaith Guto'r Glyn</i>
GGLI	Ifans (gol.), <i>Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llyglwiaid Eraill</i>
GGM I	Lewis (gol.), <i>Gwaith Gruffudd ap Maredudd I</i>
GGM II	Lewis (gol.), <i>Gwaith Gruffudd ap Maredudd II</i>
GGM III	Owen (gol.), <i>Gwaith Gruffudd ap Maredudd III</i>
GGME	Howells (gol.), <i>Gwaith Gwerful Mechain ac Eraill</i>
GGrG	Ifans <i>et al.</i> (gol.), <i>Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog, Mab Clochyddyn, Gruffudd ap Tudur Goch ac Ithel Ddu</i>
GHCLI	Harris (gol.), <i>Gwaith Hum Cae Llwyd ac Eraill</i>
GHSD	Evans (gol.), <i>Gwaith Hymel Swardwal a'i Denlu</i>
GIBH	Bryant-Quinn (gol.), <i>Gwaith Ieuan Brydydd Hir</i>
GID	Williams (gol.), <i>Casgliad o Waith Ieuan Deulwyn</i>
GIG	Johnston (gol.), <i>Gwaith Iolo Goch</i>
GILIF	Bryant-Quinn (gol.), <i>Gwaith Ieuan ap Llywelyn Fychan, Ieuan Llwyd Brydydd a Lenys Aled</i>
GIRh	Daniel (gol.), <i>Gwaith Ieuan ap Rhydderch</i>
GLD	Lake (gol.), <i>Gwaith Lenys Daron</i>
GLGC	Johnston (gol.), <i>Gwaith Lenys Glyn Cothi</i>
GLM	Rowlands (gol.), <i>Gwaith Lenys Môn</i>
GLMorg	Lake (gol.), <i>Gwaith Lenys Morgannwg</i>
GLI	Daniel (gol.), <i>Gwaith Llawdden</i>
GLIBH	Owen ac Evans (gol.), <i>Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill</i>
GLIF	Kathleen Ann Bramley <i>et al.</i> (gol.), <i>Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif</i> (Caerdydd, 1994)
GLIGMH	Johnston (gol.), <i>Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen</i>
GM	Brynley F. Roberts (gol.), <i>Gwassanaeth Meir</i> (Caerdydd, 1961)
GMBen	Barry Lewis a Twm Morys (gol.), <i>Gwaith Madog Benfras a Beirdd Eraill o'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg</i>
GMD	Edwards (gol.), <i>Gwaith Madog Dnygraig</i>
GMRh	Roberts (gol.), <i>Gwaith Maredudd ap Rhys a'i Gyfoedion</i>
GOLIM	Rolant (gol.), <i>Gwaith Owain ap Llywelyn ab y Moel</i>
GP	Williams a Jones (gol.), <i>Gramadegau'r Penceirddiaid</i>

GPB	Edwards (gol.), <i>Gwaith Prydydd Breuan, Rhys ap Dafydd ab Einion, Hywel Ystorm, a Cherddi Dychan Diennw o Lyfr Coch Hergest</i>
GPC ¹	<i>Geiriadur Prifysgol Cymru</i> (Caerdydd, 1950–2002)
GPC ²	<i>Geiriadur Prifysgol Cymru</i> (ail arg., Caerdydd, 2003–)
GRhGE	Evans (gol.), <i>Gwaith Rhys Goch Eryri</i>
GSCMB	‘Guide to the Special Collections of Manuscripts in the Library of the University College of North Wales Bangor’ (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru Bangor, 1962)
GSCyf	Daniel (gol.), <i>Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd ‘Sypyn Cyfeiliog’ a Llywelyn ab y Moel</i>
GSDT	Ifans (gol.), <i>Gwaith Syr Dafydd Trefor</i>
GSH	Lake (gol.), <i>Gwaith Siôn ap Hywel</i>
GSPhE	Bryant-Quinn (gol.), <i>Gwaith Syr Phylip Emlyn, Syr Lenys Meudny a Mastr Harri ap Hywel</i>
GSRh	Jones a Rheinallt (gol.), <i>Gwaith Sefnyn, Rhisierdyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch</i>
GST	Roberts (gol.), <i>Gwaith Siôn Tudur</i>
GTA	Jones (gol.), <i>Gwaith Tudur Aled</i>
GMW	D. Simon Evans, <i>A Grammar of Middle Welsh</i> (Dublin, 1964)
GWL	Jarman a Hughes (gol.), <i>A Guide to Welsh Literature 1282 – c. 1550</i>
HGC	Henry Lewis (gol.), <i>Hen Gerddi Crefyddol</i> (Caerdydd, 1931)
HGDG	Llwyd (gol.), <i>50 o Gynyddau Dafydd ap Gwilym</i>
HGK	D. Simon Evans (gol.), <i>Historia Gruffudd vab Kenan</i> (Caerdydd, 1977)
HMNLW	<i>Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales</i> (Aberystwyth, 1943–)
HPE	Glenys Witchard Goetinck (gol.), <i>Historia Peredur vab Efranc</i> (Caerdydd, 1976)
IGE	Lewis, Roberts a Williams (gol.), <i>Cynyddau Iolo Goch ac Eraill</i>
LBS	S. Baring-Gould and J. Fisher, <i>The Lives of the British Saints</i> (4 vols, London, 1907–13)
LIA	J. Morris Jones and John Rhys (gol.), <i>The Elucidarium . . . from Llyvyr Agkyr Llandewivrevi, A.D. 1346</i> (Oxford, 1894)
LIB	S. J. Williams a J. E. Powell (gol.), <i>Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd</i> (Caerdydd, 1942)
LIC	<i>Llên Cymru</i>
LICH	Llyfr Coch Hergest
LIDW	J. Gwenogvryn Evans (gol.), <i>Y Llyvyr Du or Weun, Facsimile of the Chirk Codex of the Welsh Laws</i> (Llanbedrog, 1909)
LIGH	Llyfr Gwyn Hergest
LII	Aled Rhys Wiliam (gol.), <i>Llyfr Iorwerth</i> (Cardiff, 1960)
LIWM	Llyfr Wiliam Mathew
M	<i>The Myvyrian Archaeology of Wales</i> (ail arg., Denbigh, 1870)
MC	R. Geraint Gruffydd (gol.), <i>Meistri'r Canrifoedd</i> (Caerdydd, 1973)
MCF	Mynegai Cyfrifiadurol i Farddoniaeth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru (‘MALDWYN’)
MED	<i>Middle English Dictionary</i> (Ann Arbor, Michigan, 1954–)
MFGLI	<i>Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llanysgrifau</i> (1978)
MWM	Huws, <i>Medieval Welsh Manuscripts</i>
NCE	<i>New Catholic Encyclopedia</i> (15 vols, Washington, 1967)
NLWCM	J. H. Davies, <i>The National Library of Wales Catalogue of Manuscripts</i> , i (Aberystwyth, 1921)

OBWV	Parry (gol.), <i>The Oxford Book of Welsh Verse</i>
ODCC	F. L. Cross and E. A. Livingstone (gol.), <i>The Oxford Dictionary of the Christian Church</i> (3ydd arg., Oxford, 1997)
OED	<i>The Oxford English Dictionary</i> (ail arg., Oxford, 1989)
OPGO	Bachellery (gol.), <i>L'oeuvre poétique de Gutun Owain</i>
Pen	llawysgrif yng nghasgliad Peniarth
PBA	<i>Proceedings of the British Academy</i>
PKM	I. Williams (gol.), <i>Pedeir Keinc y Mabinogi</i> (Caerdydd, 1930)
PWDN	Roberts a Williams (gol.), <i>The Poetical Works of Dafydd Nanmor</i>
PWLMA	Ralph A. Griffiths, <i>The Principality of Wales in the Later Middle Ages</i> (Cardiff, 1972)
R	Evans (gol.), <i>The Poetry in the Red Book of Hergest</i>
RBB	J. Rhŷs and J. Gwenogvryn Evans (gol.), <i>The Text of the Bruts from the Red Book of Hergest</i> (Oxford, 1890)
RC	<i>Révue Celtique</i>
RWM	Evans, <i>Report on Manuscripts in the Welsh Language</i>
SC	<i>Studia Celtica</i>
SCWMBLO	F. Madan and H. H. E. Craster, <i>Summary Catalogue of Western Manuscripts in the Bodleian Library at Oxford</i> (Oxford, 1924)
SPDG	Bromwich, <i>Selected Poems of Dafydd ap Gwilym</i>
TC	Morgan, <i>Y Treigladau a'u Cystrawen</i>
THSC	<i>Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion</i>
TLIM	Williams, <i>Traddodiad Llenyddol Morgannwg</i>
TYP	Bromwich, <i>Trioedd Ynys Prydein</i>
WATU	Melville Richards, <i>Welsh Administrative and Territorial Units</i> (Cardiff, 1969)
WCCR	Williams, <i>The Welsh Church from Conquest to Reformation</i>
WCD	P. C. Bartrum, <i>A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000</i> (Aberystwyth, 1993)
WG	J. Morris-Jones, <i>A Welsh Grammar</i> (1913)
WG1	Bartrum, <i>Welsh Genealogies AD 300–1400</i>
WG2	Bartrum, <i>Welsh Genealogies AD 1400–1500</i>
WM	J. Gwenogvryn Evans (gol.), <i>The White Book Mabinogion</i> (Pwllheli, 1907; adarg., Caerdydd, 1973)
WVBD	O. H. Fynes-Clinton, <i>The Welsh Vocabulary of the Bangor District</i> (Oxford, 1913)
YB	<i>Ysgrifau Beirniadol</i>
YCM	S. J. Williams (gol.), <i>Ystoria de Carolo Magno</i> (ail arg., Caerdydd, 1968)
ZCP	<i>Zeitschrift für Celtische Philologie</i>

Terman a geiriau

adarg.	adargraffiad
amhff.	amherffaith
anh.	anhysbys
arg.	argraffiad
<i>art. cit.</i>	<i>articulo citato</i>
<i>c.</i>	<i>circa</i>
c. (g.)	canrif
cf.	cymharer
Cym.	Cymraeg
C. C.	Cymraeg Canol
d.g.	dan y gair
dib.	dibynnol
ed.	<i>edited by, edition</i>
e.e.	er enghraifft
f., ff.	ffolio(s)
<i>fl.</i>	<i>floruit</i>
g. (c.)	canrif
gol.	golygydd, golygwyd gan
grff.	gorffennol
gthg.	gwrthgyferbynier
gw.	gweler
Gwydd.	Gwyddeleg
<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
<i>id.</i>	<i>idem</i>
<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
ll(au).	llinell(au)
Llad.	Lladin
llsgr(au).	llawysgrif(au)
m.	marw
n.	nodyn
<i>op. cit.</i>	<i>opere citato</i>
pres.	presennol
prff.	perffaith
r	<i>recto</i>
S.	Saesneg
S. C.	Saesneg Canol
s.v.	<i>sub verbo</i>
t.	tudalen
un.	unigol
v	<i>verso</i>
vol(s)	<i>volume(s)</i>